# COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD A GYNHALIWYD YN YSTAFELLOEDD PWYLLGOR 2/3 - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD IAU, 21 MEHEFIN 2018, AM 16:00

Presennol

Y Cynghorydd E Venables – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | RM Granville | DG Howells | RM James |
| KL Rowlands | SG Smith | G Thomas | SR Vidal |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

A Williams

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Michael Pitman | Prentys Busnes Gweinyddol Gwasanaethau Democrataidd |
| Kelly Watson | Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd |
| Gary Jones | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

## 138. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan yr Aelodau/Swyddogion canlynol:
Y Cyng Alex Williams

## 139. DATGAN BUDDIANNAU

Dim

## 140. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd A gynhaliwyd ar 20/03/2018 fel cofnod gwir a chywir.

## 141. PENODI PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad a roddodd wybod i'r Pwyllgor am y broses a ddilynir i benodi Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ac a geisiodd benodi Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor.

Dywedodd y Swyddog Monitro fod Adran 8 (1) Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gofyn i'r Awdurdod benodi un o'i swyddogion i gyflawni swyddogaethau'r gwasanaethau democrataidd yn Adran 9 y Mesur.

Esboniodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd y byddai'n gadael yr awdurdod ar 30 Mehefin 2018 ac mae'r awdurdod wedi ymgymryd â phroses penodi. Mae cynnig cyflogaeth wedi'i roi, ond mae'n bosibl y bydd oedi cyn y gall yr ymgeisydd llwyddiannus ddechrau yn y swydd. Mae rhywun wedi'i benodi dros dro i'r swydd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd er mwyn bodloni gofynion statudol a chynigiwyd bod y Prif Gyfreithiwr yn cael ei benodi fel Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaeth Democrataidd o 1 Gorffennaf 2018 ymlaen.

PENDERFYNWYD: Bod Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd:

(1) Yn dynodi swydd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn Bennaeth statudol y Gwasanaethau Democrataidd at ddibenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

(2) Yn penodi Prif Gyfreithiwr yr Awdurdod fel Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaeth Democrataidd i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd y Cyngor o 1 Gorffennaf 2018 tan fod deiliad newydd y swydd yn dechrau.

142. DIWEDDARIADAU GWASANAETH A PHERFFORMIAD

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ddiweddariad r berfformiad y gwasanaethau wedi'u darparu ar gyfer Aelodau Etholedig.

Cyflwynodd ddiweddariad ar nifer yr atygyfeiriadau a dderbyniwyd rhwng 1 Mawrth a 31 Mai 2018, a gyda'r meincnod a osodwyd ym mis Tachwedd 2013 bod tua 45% atgyfeiriadau wedi'u cwblhau o fewn y cyfnod targed o 10 diwrnod. Rhoddodd wybod hefyd am nifer yr atgyfeiriadau wedi'u cwblhau rhwng 1 Mehefin 2017 a 31 Mai 2018 ac esboniodd fod y meincnod a osodwyd ym mis Tachwedd 2013 y dylai 90-95% o atgyfeiriadau wedi'u cwblhau o fewn y cyfnod o 3 mis. Yn ystod y cyfnod, Ionawr 2018 oedd yr unig fis oedd o dan y cyfartaledd hwn gyda 89.05% o atgyfeiriadau'n cael eu cwblhau.

Aeth Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ymlaen i esbonio'r gweithgareddau datblygu aelodau a gynhaliwyd yn rhan o'r Rhaglen Ddatblygu Aelodau, ynghyd â chrynodeb o nifer yr aelodau oedd yn bresennol ar gyfer pob pwnc y rhaglen. Yna esboniodd bob un o'r pynciau wedi'i drefnu yn rhan o'r Rhaglen Ddatblygu Aelodau gan amlinellu pynciau wedi'u nodi i'w cynnwys yn y Rhaglen Ddatblygu Aelodau.

Gofynnodd Aelod am y RhDDC yn cael ei ddosbarthu'n hanfodol i bob aelod a'r hyn y gellid ei wneud os nad yw Aelodau'n mynychu. Esboniodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, er bod yr Awdurdod wedi dweud ei fod yn hanfodol, nad oes rhwymedigaeth gyfreithiol i aelodau ei wneud ac felly ni ellir eu cosbi, oni bai bod y Papur Gwyn yn dweud fel arall.

Esboniodd hefyd y newidiadau y mae wedi'u gwneud ar gyfer y sesiwn RhDDC nesaf ar sail y sylwadau wedi'u gwneud gan Aelodau aeth i'r sesiwn gyntaf. Rhoddodd wybod i'r Pwyllgor y bydd y Prif Gyfreithiwr hefyd yn mynd i'r sesiwn i roi eglurder ar rai o'r telerau ar ffurf Atgyfeiriadau Aelodau fel y mae gan Aelodau ddealltwriaeth gliriach o'r RhDDC.

Manylodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ar y pynciau wedi'u trefni ar gyfer Briffiau Cyn Cyfarfodydd y Cyngor yn y Dyfodol. Rhestrwyd y pwnc cyntaf ar y rhestr fel Bryntyrion ond dylai fod wedi'i restru fel Bryncethin - ni fyddai'n digwydd ar 18 Gorffennaf mwyach gan nad oedd modd i gynrychiolwyr Campws Bryncethin fynychu. Cytunodd yr Aelodau i aildrefnu'r sesiwn ar gyfer y Briff Cyn Cyfarfod y Cyngor ar 21 Tachwedd.

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried aildrefnu'r Briffiau Cyn Cyfarfodydd y Cyngor ar Drafnidiaeth Gymunedol ar 18 Gorffennaf ac ar y Cynllun Datblygu Gwledig ar 24 Hydref. Hefyd ystyriodd y Pwyllgor yr angen i gael Sesiwn Ddatblygu Aelodau ym mis Hydref ar gyfer 'Sut i Ddefnyddio Mapiau Pontydd'.

Adroddodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ar nifer o fodiwlau e-ddysgu sydd wedi'u cwblhau gan Aelodau Etholedig.

Hyd yn hyn, nid oes llawer o Aelodau wedi manteisio ar gyfleusterau e-ddysgu a gofynnwyd i'r Aelodau am eu barn ar yr hyn y gellid ei wneud i annog Aelodau Etholedig i wneud defnydd mwy o'r cyfleusterau e-ddysgu sydd ar gael. Dywedodd yr Aelodau fod llawer ohonynt wedi cael problemau gyda chwblhau modiwlau penodol ac y byddai'r bar cynnydd yn rhewi sy'n golygu na allent gwblhau, mae'r Aelodau ar dawl achlysur rhoi'r gorau i'w cwblhau.

Nododd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd sylwadau'r Aelodau gan nodi y byddai mwy o gymorth ar gael. Cytunwyd y byddai gwiriadau iechyd blynyddol yn addas i sicrhau bod yr Aelodau'n cael eu cefnogi'n effeithiol yn eu rôl ac i sicrhau nad oes meddalwedd amhriodol ar eu dyfeisiau.

Esboniodd hefyd bod yr App Cyfyngedig ar gyfer Modern.Gov yn dal i gael ei roi ar waith gyda TGCh ac y byddai Pwyllgor y Gwasanaeth Democrataidd yn parhau i roi'r diweddaraf iddynt ar ei gynydd. Mae Chrome for Business hefyd wedi'i gynllunio yn dilyn cyfarfod y Cyngor ar 20 Mehefin.

PENDERFYNWYD: Bod Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn nodi cynnwys yr adroddiad a chadarnhau'r canlynol:

Briffiau Cyn Cyfarfodydd y Cyngor:
18 Gorffennaf 18 – Trafnidiaeth Gymunedol
19 Medi 18 – Gofalwyr/Gofalwyr Ifanc
24 Hyd 18 – Campws Bryncethin
21 Tach 18 – Cynllun Datblygu Gwledig
19 Rhag 18 – Addysg Cartref Ddewisol

Sesiynau Datblygu Aelodau:
27 Mehefin – RhDDC 2
11 a 31 Gorffennaf – Ymwybyddiaeth o Ddemensia
I'w gadarnhau Medi 18 – Ymwybyddiaeth o ADY ac Awtistiaeth
I'w gadarnhau Hyd 18 – Defnyddio Mapiau Pontydd
I'w gadarnhau Tach 18 – Diweddariad Gwrth-Gaethiwed/Masnachu Pobl/Sipsi/Teithwyr

Offer TGCh Aelodau:
Bod TGCh yn gwneud gwiriadau iechyd blynyddol i sicrhau eu bod yn gweithio'n gywir ac nad oes meddalwedd amhriodol wedi'i gosod ar yr offer.

Arweinwyr Grŵp:
Gofynnodd y Pwyllgor bod Arweinwyr pob grŵp yn cael gwybod am lefelau presenoldeb mewn gweithgareddau datblygu aelodau. Gofynnwyd iddynt hefyd i annog eu haelodau'n gryf i fynychu/cwblhau'r sesiynau hyfforddiant perthnasol.

E-ddysgu:
Bod Dysgu a Datblygu yn rhoi gwybodaeth am y canlynol:

- Faint o aelodau sydd wedi dechrau unrhyw sesiynau e-ddysgu
- Sut y gellir mewngofnodi i'r porthol E-ddysgu a'i ddefnyddio'n haws
- Beth oedd y rhwystrau arferol i gwblhau pynciau e-ddysgu a sut y gellir eu hosgoi.

143. EITEMAU BRYS

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 17:22